# Defnyddio Microsoft Forms ym Mhrifysgol Aberystwyth

Gellir defnyddio Microsoft Forms i greu ffurflenni, arolygon neu gwisiau syml.

## Creu Ffurflen

Y peth gorau yw creu eich ffurflen o grŵp er mwyn osgoi problemau os byddwch chi’n gadael y brifysgol, ond mae hefyd yn bosibl creu ffurflen bersonol.

Caiff grwpiau eu creu'n awtomatig pan fyddwch chi'n gwneud tîm yn Microsoft Teams, felly os oes gennych chi dîm sy'n cynnwys y bobl rydych chi am rannu eich ffurflen gyda nhw, gallwch ddefnyddio'r grŵp hwn. Os nad oes gennych dîm addas yn barod, gallwch greu un. Gallwch ddefnyddio'r grwpiau hyn i rannu perchnogaeth o'ch ffurflenni.

Gallwch hefyd greu ffurflen o fewn Teams ei hun.

Canllawiau Microsoft ar greu:

- ffurflen grŵp (argymhellir)
- ffurflen grŵp o fewn i dîm (argymhellir)
- ffurflen bersonol

## Newid arddull eich ffurflen

Gallwch newid lliwiau ac ychwanegu logo’r Brifysgol at eich ffurflen. Gallwch ddod o hyd i logos ac adnoddau eraill ar y wefan Marchnata a Denu Myfyrwyr.

Canllaw Microsoft ar:

- newid thema eich ffurflen
- ychwanegu logo at bennyn ffurflen

# Cydweithio ag eraill ar eich ffurflen

Os gwnaethoch chi greu'r ffurflen o grŵp, byddwch eisoes yn cydweithio â phobl eraill sydd yn eich grŵp.

Os cafodd eich ffurflen ei chreu'n bersonol, gallwch symud y ffurflen i mewn i grŵp. Neu gallwch ychwanegu grŵp (neu unigolion) fel cydweithwyr ar eich ffurflen.

Canllaw Microsoft ar:

- symud ffurflen i grŵp (argymhellir)
- ychwanegu cydweithiwr i ffurflen

# Gwneud eich ffurflen yn ddwyieithog

Rydyn ni'n brifysgol ddwyieithog, felly fe ddylen ni bob amser ddarparu ein ffurflenni yn Gymraeg a Saesneg.

Canllaw Microsoft ar:

- ffurflenni amlieithog

# Rhannu eich ffurflen

Er mwyn llenwi eich ffurflen bydd angen i chi ei rhannu gyda'r bobl rydych chi eisiau iddynt ei llenwi. Gellir rhannu ffurflenni gydag unrhyw un gyda'r ddolen neu gellir eu cyfyngu i ddefnydd mewnol, neu i ddefnyddwyr neu grwpiau penodol.

Noder: os yw eich ffurflen yn cynnwys uwchlwytho ffeil, ni ellir ei llenwi gan unrhyw un y tu allan i'r Brifysgol.

Yn ddiofyn, bydd ffurflenni a rennir yn fewnol yn casglu enwau'r sawl sy'n ei llenwi. Os oes angen i chi gael ymatebion dienw, gallwch newid gosodiadau'r ffurflen.

Canllaw Microsoft ar:

- anfon ffurflen a chasglu ymatebion

- gosod eich ffurflen i beidio â chofnodi enwau

## Canlyniadau Ffurflen

Gallwch weld canlyniadau eich ffurflen o fewn Microsoft Forms neu weld yr holl ymatebion mewn ffeil Excel. Gallwch hefyd rannu dolen i grynodeb o'r ymatebion.

Canllaw Microsoft ar:

- wirio a rhannu canlyniadau eich ffurflen